



## **Adran 1: Y cynnig:**

**Disgrifiwch y canlyniad i'w gyflawni, yr allbwn a fydd yn cyfrannu at hyn a'r hyn a fwriadwch ei newid i hwyluso hyn.**

Mae Mesurau'r Gymraeg 2011 yn cyflwyno fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar Gyngor Sir Penfro i gydymffurfio â'r Safonau perthnasol i'r Gymraeg. Dan Safon 145 o Safonau'r Gymraeg 2015, mae gofyniad deddfwriaethol ar Gyngor Sir Penfro i gyhoeddi strategaeth 5 mlynedd sy'n cyflwyno sut mae'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn eang yn Sir Benfro.

Cynhyrchwyd y strategaeth 5 mlynedd yn benodol i hybu defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, yn y gweithle ac ym myd addysg. Bydd yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar ac annog defnyddio'r Gymraeg ac i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig.

Ein nod yw dal i gyflawni'r arweiniadau corfforaethol a gyflwynwyd er mwyn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg ac i gyflawni amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Mwy na Geiriau trwy ddylanwadu ar ac annog defnyddio'r Gymraeg a hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig.

## **Adran 2: Cyd-fynd â'r nodau ffyniant:**

Sir Benfro / Cymru lewyrchus (yr economi, addysg a sgiliau).

Bydd ein strategaeth yn hyrwyddo addysg Gymraeg yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Sir Benfro / Cymru gydnerth (yr amgylchedd, llifogydd a bioamrywiaeth).

Ni fydd ein strategaeth yn effeithio ar y materion hyn.

Sir Benfro / Cymru iachach.

Ni fydd ein strategaeth yn effeithio er gwaeth ar y nod hwn. Bydd y strategaeth yn hyrwyddo cyflenwi gwasanaethau gofal cymdeithasol yn iaith ddewisol y cwsmer, gan ategu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Sir Benfro / Cymru sy'n fwy cyfartal.

Bwriad y strategaeth 5 mlynedd yw cwmpasu holl grwpiau oedran gan gynnwys plant cyn ysgol, oed ysgol ac ôl-16; teuluoedd; a chyflogeion Cyngor

Sir Penfro. Bydd yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar ac annog defnyddio'r Gymraeg ac i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig. Bydd gwasanaethau'r Cyngor yn dal i gael eu hyrwyddo'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth dwyieithog.

Yr effaith all fod ar y nodweddion gwarchoddedig:

	Cadarnhaol	Diduedd	Negyddol
Pobl Ifanc	✓		
Pobl Hŷn	✓		
Pobl Anabl		✓	
Newid Rhyw		✓	
Priodas a Phartneriaeth Sifil		✓	
Beichiogrwydd a Mamolaeth		✓	
Hil		✓	
Credau Crefyddol		✓	
Rhyw		✓	
Cyfeiriadedd Rhywiol		✓	

Cymru o gymunedau cydlynus

Rydym yn canolbwyntio ar dair thema:

Defnyddio Cymraeg yn ein cymuned

Defnyddio Cymraeg mewn ysgolion

Defnyddio Cymraeg yn ein gweithle

Sir Benfro / Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Bydd y strategaeth 5 mlynedd yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar ac annog defnyddio'r Gymraeg ac i hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig. Mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn bod y Cyngor hwn yn asesu i ba raddau y dilynodd y Cyngor y strategaeth honno. Mae rhaglen arolygu'n bodoli.

Sir Benfro / Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Ni fydd ein strategaeth yn effeithio ar y materion hyn.

### **Adran 3: Arfarnu cynaliadwyedd**

Hirdymor

Rhoi cyfleoedd i'n cyhoedd nid yn unig ddysgu'r Gymraeg ond rhoi cyfleoedd i holl siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith.

Cyfrannu at nod hirdymor Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Atal

Nid yw'r strategaeth ynddi'i hun yn cyfrannu at y nod hwn.

## Integreiddio

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â gofynion Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol)

## Cyfranogiad

Mae strategaeth 5 mlynedd y Cyngor hefyd yn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020. (Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn rhoi rhwymedigaeth statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP). Ymgynghorwyd ar Ddrafft WESP 2017-2020 ym mis Tachwedd 2016 gyda dyddiad cau o 9/12/16.)

## Cydweithredu

Bydd cydweithredu'n digwydd drwy Grŵp Datblygu Safonau'r Gymraeg, sy'n cynnwys o leiaf un cynrychiolydd o bob un o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor. Bydd y gwaith sy'n cael ei wneud yn cyfrannu'n gadarnhaol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol lle mae'r Gymraeg yn un o'r nodau ffyniant. Ymatebir yn gadarnhaol i'r canllawiau allweddol o fewn Mwy na Geiriau (fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg yn y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol) wrth i ni ddatblygu'r Gymraeg.

## **Adran 4 Cloriannu / dilyniant**

Mae Safon 146 o Safonau'r Gymraeg yn gofyn bod y Cyngor hwn, ymhen pum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â Safon 145, yn asesu i ba raddau y dilynodd y Cyngor y strategaeth honno.